

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Penygraig / Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Dyddiad arolygu: 15 Mai 2019

Dyddiad cyhoeddi: 16 Awst 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

| | | |
|----|--|-------------------------------------|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym..... | 8 |
| | Ansawdd profiad y claf | 9 |
| | Darparu gofal diogel ac effeithiol | 16 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | 22 |
| 4. | Beth nesaf? | 26 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu..... | 27 |
| | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad | 28 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol..... | 29 |
| | Atodiad C – Cynllun gwella..... | Error! Bookmark not defined. |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Penygraig yn Stryd George, Tonypany, CF40 1QN, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 15 Mai 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o reolwyr arolygu AGIC (gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis. Roedd dau aelodau gwirfoddol o Gyngor Iechyd Cymuned (CIC) Cwm Taf Morgannwg¹ yn presennol hefyd.

Siaradodd aelodau gwirfoddol CIC â chleifion yn ystod yr arolygiad, a gwnaethant ystyried yr amgylchedd a'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion yn y practis. Ar ôl ei gyhoeddi, ceir copi o'u hadroddiad ar wefan CIC Cwm Taf Morgannwg². Bydd angen i'r practis gydgyssylltu â CIC mewn perthynas â'r canfyddiadau a'r argymhellion y maent wedi'u gwneud.

Fel rhan o'r arolygiad cyffredinol, bu adolygwyr AGIC hefyd yn ystyried rhai meysydd profiad cleifion. Gellir dod o hyd i wybodaeth yn ymwneud â hyn yng nghorff yr adroddiad.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/home>

² <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/903/page/45256>

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ond roedd rhai meysydd lle nad oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol a chyfeillgar o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd yr amgylchedd yn groesawgar i bawb, ac roedd sylwadau'r cleifion am y practis yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, codwyd materion ynghylch argaeledd apwyntiadau.

Roedd y practis yn lân ac yn daclus, ac roedd mesurau rheoli heintiau priodol ar waith.

Nodwyd bod y cyfathrebu rhwng y staff yn y practis yn dda, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli.

Roedd angen rhoi proses gadarn ar waith er mwyn sicrhau bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn argyfwng meddygol yn cael eu harchwilio rheolaidd.

Roedd angen gwneud gwelliannau sylweddol mewn perthynas â'r gwiriadau cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi staff newydd. Ymdriniwyd â hyn o dan broses sicrwydd uniongyrchol AGIC. Yn ogystal â hyn, roedd gofyn i'r practis roi cofrestr ar waith i fonitro statws hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol ar fyrder.

Yn ogystal â hyn, roedd angen prosesau mwy cadarn ar gyfer y gwaith o fonitro a chofnodi hyfforddiant y staff, ac er mwyn sicrhau y caiff cofrestriadau staff proffesiynol eu goruchwilio'n ddigonol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Enghreifftiau cadarnhaol a chyfeillgar o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion

- Darperir gofal a thriniaeth mewn ffordd a oedd yn cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion
- Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn yr ardal aros
- Roedd yr amgylchedd y tu mewn i'r practis yn lân ac yn daclus
- Roedd tîm rheoli'r practis yn ymrwymedig i wneud gwelliannau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwybodaeth ar y wefan ac yn y daflen wybodaeth i gleifion
- Ymgymryd ag asesiad mynediad i'r anabl
- Gwybodaeth i gleifion yn ymwneud ag elfennau o'r broses gwyno a manylion cyswllt y CIC
- Proses er mwyn sicrhau y caiff cwynion eu cofnodi a'u hasesu'n briodol
- Proses ar gyfer archwilio'r cyffuriau a'r offer brys
- Proses gadarn er mwyn sicrhau y caiff cofnodion eu cadw mewn perthynas â statws imiwneiddio hepatitis B y staff
- Rhai meysydd cadw cofnodion cleifion
- Creu Cynllun Datblygu Practis
- Proses gadarn ar gyfer recriwtio staff newydd, a chynnal gwiriadau cyflogaeth o'r staff presennol
- Cofnodion hyfforddiant y staff.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Penygraig yn darparu gwasanaethau i tua 4800 o gleifion yn ardal Tonypany, De Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddygon teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau bartner meddyg teulu, un meddyg teulu cyflogedig, dwy nyrs practis, dau weithiwr cymorth gofal iechyd, ysgrifennydd meddygol, uwch swyddog gweinyddol, pedwar aelod o staff gweinyddol a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Clinig asthma
- Clinig babanod
- Profion ceg y groth (smear)
- Clinig Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)
- Clinig diabetes
- Brechlynnau rhag y fflw a niwmonia
- Clinig pwysedd gwaed uchel
- Clinig gwrthgeulo
- Clinig teithio
- Mân lawdriniaethau
- Clinig cynllunio teulu.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (Ile'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom enghreifftiau cyfeillgar a chwrtais o ryngweithio rhwng aelodau o'r staff a'r cleifion. Ar y cyfan, roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol ynghylch eu profiad yn y practis. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan y cleifion ynghylch argaeledd apwyntiadau gyda'r meddygon teulu.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod ein harolygiad, siaradodd aelodau gwirfoddol y CIC â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis. Ar ôl ei gyhoeddi, gellir dod o hyd i adroddiad ar wefan CIC Cwm Taf Morgannwg³.

Derbyniwyd cyfanswm o 25 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers dros ddwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion sgorio'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddyg teulu. Cafwyd ymatebion cadarnhaol – dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gwasanaeth yn dda iawn.

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Cododd nifer o gleifion rai materion cyffredin gyda ni, yn enwedig prinder apwyntiadau yn y practis. Roedd sylwadau yn awgrymu gwelliannau yn cynnwys:

"Mwy o feddygon ar gyfer mwy o apwyntiadau"

"System apwyntiadau well – apwyntiadau ar amser"

³ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/903/page/45256>

"Gwneud hi'n haws i bobl sy'n gweithio drefnu apwyntiad"

Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o bosteri a thafleuni gwybodaeth yn ardal aros y practis i gleifion eu darllen a mynd adref gyda nhw. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn helpu i roi gwybodaeth i'r cleifion am gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Gofal ag urddas

Gwelsom gleifion yn cael eu cyfarch a'u croesawu gan staff y dderbynfa mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar. Roedd nifer o'r staff wedi gweithio yn y practis ers blynyddoedd lawer, ac roedd yn ymddangos fel petaent yn adnabod eu cleifion yn dda.

Er bod ardal y dderbynfa wedi'i lleoli yn yr ystafell aros, gwelsom fod y staff yn siarad â chleifion yn dawel er mwyn amddiffyn eu preifatrwydd wrth ofyn am fanylion personol a'u cadarnhau. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym y gellid defnyddio ystafell i'r cleifion drafod unrhyw wybodaeth sensitif er mwyn sicrhau eu preifatrwydd, os oedd angen.

Roedd pawb ond dau glaf a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y practis.

Dywedodd pawb ond dau glaf a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser neu weithiau'n llwyddo i weld y meddyg o'u dewis.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau er mwyn helpu i amddiffyn preifatrwydd y cleifion.

Cafodd rhai o'r ystafelloedd ymgynghori eu rhannu'n ddwy ardal, gyda'r gwely triniaeth mewn ardal ar wahân. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion ddadwisgo'n breifat, pan oedd angen, cyn unrhyw driniaeth neu archwiliad. Gwelsom y gellid cloi'r drysau er mwyn sicrhau y caiff preifatrwydd ei gynnal.

Roedd nifer o'r staff wedi'u hyfforddi i ddarparu gwasanaeth hebryngwr priodol i'r cleifion yn ystod archwiliadau personol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cael ei hysbysu'n glir i'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis hysbysu'r gwasanaeth hebryngwyr sydd ar gael i'r cleifion yn glir.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gan y practis wefan a thaflen am y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y practis a'r gwasanaethau roedd yn eu cynnig. Roedd angen adolygu'r wybodaeth er mwyn sicrhau bod yr oriau agor yn adlewyrchiad cywir o'r amseroedd roedd y practis ar agor.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth berthnasol arall yn cael ei harddangos ar nifer o fyrddau gwybodaeth yn yr ardal aros. Roedd rhai byrddau wedi'u dynodi i bynciau penodol megis bwrdd gofalwyr, beichiogrwydd a rhieni newydd, a gwybodaeth benodol am ganser. Fodd bynnag, gwelsom fod rhywfaint o'r wybodaeth yn hen, ac roedd byrddau eraill yn anniben ac yn anodd eu defnyddio. Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried adolygu'r wybodaeth sy'n cael ei harddangos er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch, yn berthnasol ac yn gyfredol. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwnaethom hefyd argymhell y gellid gwella'r arwyddion o amgylch y practis yn cyfeirio cleifion at ystafelloedd ymgynghori. Gwelsom fod darnau o bapur yn sownd wrth ddrysau'r ystafelloedd ymgynghori a oedd yn edrych yn flêr ac wedi treulio. Cytunodd y practis i wella'r arwyddion.

Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r wefan a thaflen wybodaeth y practis er mwyn sicrhau bod yr oriau agor cywir yn cael eu nodi.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y

gallent ei deall. Hefyd, dywedodd pob un ond dau glaf wrthym eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent yn y penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gleifion a oedd wedi gwneud cais am ohebiaeth Gymraeg wedi'u cofrestru â'r practis. Fodd bynnag, byddai'r practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth yn eu dewis iaith. Roedd gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu pe bai ei angen. Gwelsom nad oedd fawr ddim gwybodaeth am hybu iechyd ar gael i gleifion yn Gymraeg ac ieithoedd eraill.

Roedd gan y practis ddolen sain i helpu cleifion sydd ag anawsterau clywed i gyfathrebu, a gwelsom boster yn hysbysebu hyn yn yr ardal aros.

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer sicrhau bod gohebiaeth a oedd yn dod i mewn i'r practis yn cael ei darllen ac y gweithredwyd yn briodol arni. Eglurodd y staff hefyd y trefniadau a oedd ar waith er mwyn sicrhau y tynnir sylw'r meddygon, y nyrs neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n ymweld â'r practis at negeseuon (gan gleifion ac eraill) mewn modd amserol.

Gofal amserol

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad, a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion ar lafar. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion wrthym y gallai apwyntiadau fod yn hwyr yn aml, gan achosi amseroedd aros hir.

Roedd y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau hyd at bythefnos ymlaen llaw, ond dywedodd y cleifion wrthym ei bod yn anodd cael gafael ar y rhain yn aml. Roedd y practis hefyd yn cynnig apwyntiadau ar y diwrnod ar gyfer ymgynghoriadau anarferol. Dywedwyd wrthym fod yr apwyntiadau hyn yn cael eu brysennu gan nyrs, ac yna byddai cleifion naill ai'n cael cynnig apwyntiad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthnasol neu eu hatgyfeirio at wasanaeth arall. Gallai apwyntiadau hefyd gael eu neilltuo ar gyfer dyddiad yn y dyfodol agos, pe bai'r nyrs yn ystyried y byddai hyn yn briodol.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau da ar waith i'r staff nyrsio (sy'n gyfrifol am frysennu) drafod unrhyw bryderon am gleifion gyda'r meddygon teulu. Dywedodd y staff wrthym fod polisi drws agored ar waith, a byddent yn hapus ac yn hyderus i siarad â'r meddygon teulu pe bai angen cyngor arnynt mewn perthynas â'r cleifion hynny sy'n cael ei brysennu.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon ar oriau agor y practis. Dywedodd ychydig yn

llai na hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oedd yn hawdd iawn neu ddim yn hawdd o gwbl cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, dywedodd bron i draean y cleifion a gwblhaodd holiadur fod eu profiad wedi bod yn wael neu'n wael iawn.

Gwelsom bosteri yn yr ardal aros yn arddangos manylion cynllun Dewis Doeth⁴. Golygai hyn fod y practis yn helpu i hyrwyddo amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gleifion, gan ddibynnu ar eu hanghenion. Yn benodol, roedd y practis yn hyrwyddo Dewis Fferyllfa⁵ ar gyfer mân anhwylderau.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn, rhai ag anawsterau symudedd a rhai â chadeiriau gwthio. Roedd ramp yn arwain at y practis a'r ystafell aros. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth ar yr un llawr. Nid oedd unrhyw gyfleusterau parcio dynodedig i gleifion y tu allan i'r practis, ac roedd yn rhaid iddynt barcio ar y stryd.

Nid oedd gan y practis gadeiriau yn yr ardal aros ar gyfer cleifion ag amrywiaeth o anghenion, megis y rheini â breichiau, neu gadeiriau uwch. Gwelsom nad oedd y practis wedi cwblhau asesiad mynediad i'r anabl ar gyfer yr amgylchedd a gwnaethom awgrymu y dylai wneud hyn, gan y gallai dynnu sylw at feysydd yn y practis y gallai fod angen eu gwella. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd mynd i mewn i adeilad y practis.

Roedd y practis yn cynnal clinigau i gleifion ag anghenion gofal iechyd penodol, fel COPD, asthma ac afiechydon cronig, er mwyn eu helpu i reoli eu cyflyrau.

⁴ <http://www.dewisdoethcymru.org.uk/hafan>

⁵

http://www.dewisdoethcymru.org.uk/sitesplus/documents/994/Minor%20Ailments%20Services_Leaflet_Welsh.pdf

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ystyried ymgymryd ag asesiad mynediad i'r anabl a chymryd camau lle y caiff gwelliannau eu nodi.

Hawliau pobl

Mae'r canfyddiadau a ddisgrifir gennym drwy gydol yr adran hon yn nodi bod y practis yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran hawliau pobl. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae angen cynnal asesiad mynediad i'r anabl.

Gwrando a dysgu o adborth

Nid oedd gan y practis unrhyw brosesu ffurfiol ar waith er mwyn cael adborth gan y cleifion. Dywedwyd wrthym fod blwch awgrymiadau ar gael yn y gorffennol, a bod y practis wedi cynnal arolygon i gleifion, ond nid oeddent yn cynnal y rhain mwyach. Nid oedd gan y practis grŵp cyfranogiad cleifion, a allai ddarparu llwybr i'r practis a'r cleifion allu trafod materion sy'n berthnasol iddynt.

Gwelsom fod y practis yn arddangos poster cwynion yn ardal aros y practis. Gwelsom fod hwn yn cael ei arddangos ger ffenestr y dderbynfa, ac ar fwrdd gwybodaeth i gleifion. Ni welsom fod unrhyw wybodaeth Gweithio i Wella GIG Cymru⁶ yn cael ei harddangos. Nid oedd y practis yn arddangos gwybodaeth am y Cyngor Iechyd Cymuned, sy'n gallu rhoi cymorth i gleifion sydd am wneud cwyn.

Er bod y practis yn cadw manylion unigol y cwynion a gafwyd, gwnaethom argymhell y dylid gwella'r broses ar gyfer adolygu cwynion. Nid oedd y practis yn cadw cofnod a oedd yn dangos y camau a gymerwyd, yr amserlenni, y gwersi a ddysgwyd na'r themâu na thueddiadau, sy'n broses allweddol ar gyfer gwella a datblygu fel practis. Cytunodd rheolwr y practis i roi proses ar waith ar gyfer sicrhau y caiff pob cwyn ei chofnodi'n briodol fel y gall nodi themâu a thueddiadau a rhannu'r wybodaeth â'r staff fel y bo'n briodol.

⁶ <http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/atebolircyhoedd/gweithioiwella>

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Rhoi'r cyfle i'r cleifion roi adborth ar y gwasanaethau mae'n eu darparu
- Arddangos gwybodaeth am broses Gweithio i Wella GIG Cymru, gan gynnwys darparu taflenni i fynd adref
- Arddangos manylion cyswllt ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned
- Rhoi proses ar waith i gofnodi cwynion yn briodol, gan gynnwys dangos ble y cymerwyd camau, ble y caiff themâu a thueddiadau eu nodi, ble y caiff gwersi eu dysgu a gwybodaeth ei rhannu â'r staff pan fo angen.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y practis yn lân ac yn daclus, ac roedd yn darparu gofal a thriniaeth mewn amgylchedd priodol.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon dderbyniol.

Nododd y staff clinigol fod cydberthynas waith dda, a oedd yn galluogi trafodaethau clinigol am gleifion yn ôl yr angen.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn argyfwng meddygol yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Roedd angen mwy o drefniadau cadarn i sicrhau bod statws imiwneiddio hepatitis B y staff yn cael eu dogfennu.

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau i'r polisi diogelu, a phenodi arweinydd diogelu ar gyfer y practis.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Wrth fynd o amgylch y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd mewnol a oedd yn agored i gleifion yn lân ac yn glir rhag rhwystrau, a oedd yn lleihau'r risg o faglu a chwympto. Fodd bynnag, roedd yr ardal yng nghefn yr adeilad yn anniben ac yn cynnwys nifer o beryglon posibl. Gwelsom fod gwydr a oedd wedi torri a sbwriel yno, a fyddai'n gallu achosi i bobl faglu a chwympto. Er nad oedd cleifion yn mynd i'r ardal hon yn aml, gallent gael mynediad iddi drwy glwyd nad oedd wedi'i chau. Cytunodd y practis i ymdrin â'r mater hwn yn gyflym.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn cynnal archwiliadau rheolaidd o amgylchedd y practis, er mwyn sicrhau ei fod yn aros mewn cyflwr da. Gwnaethom argymhell y dylai'r archwiliadau hyn gynnwys cefn yr adeilad er mwyn cynnal amgylchedd allanol diogel.

Gwelsom fod y cyfarpar diogelwch tân yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Darperir hyfforddiant diogelwch tân i'r staff, ond nid oedd yn amlwg pa mor aml y cynhelir hwn. Gwneir argymhelliad ynghylch hyfforddiant yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff y mynediad i gefn yr adeilad ei ddiogelu er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.

Mae'n rhaid i archwiliadau amgylcheddol o'r practis gynnwys pob ardal nad ydynt yn agored i gleifion, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn ddiogel.

Atal a rheoli heintiau

Dyweddodd y staff wrthym fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddynt, megis menig a ffedogau plastig un-tro, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd peiriannau glanweithydd dwylo ar gael o gwmpas y practis hefyd.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân iawn.

Gwelsom fod rhai o'r cadeiriau yn yr ardal aros wedi torri, a all amharu ar lanhau effeithiol a hefyd cynnwys micro-organebau (bacteria/germau), gyda'r posibilrwydd o groes-heintio rhwng cleifion. Gwelsom hefyd fod tîp wedi'i osod ar lawr un o'r ystafelloedd triniaeth, am fod y llawr wedi'i ddfrodi. Eto, gallai hyn amharu ar lanhau effeithiol, gyda'r posibilrwydd o gynnwys micro-organebau a chroes-heintio.

Nid oedd y practis yn cynnal cofrestr gyffredinol o statws imiwneiddio hepatitis B ar gyfer ei staff clinigol. Mae angen hyn er mwyn amddiffyn y staff a'r cleifion. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer rhai aelodau o'r staff clinigol, ond nid oedd cofnodion ar gael i bob aelod o'r staff.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Trwsio neu newid y gorchuddion cadeiriau sydd wedi torri yn yr ystafell aros.
- Trwsio neu newid y llawr sydd wedi'i orchuddio â thâp yn yr ystafell driniaeth.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis fferyllydd a benodwyd gan y clwstwr lleol⁷, am ddiwrnod a hanner bob wythnos. Roedd yn gallu cefnogi'r practis drwy gynnal adolygiadau o feddyginiaethau cleifion, crynodebau rhyddhau cleifion o'r ysbyty a chynnal y clinig gwrthgeulyddion. Dywedodd y staff wrthym fod y gwasanaeth hwn yn fuddiol.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer storio a thrin a thrafod cyffuriau ac offer i'w defnyddio mewn argyfwng claf. Mae Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru⁸ yn pennu bod rhwymedigaeth ar sefydliadau gofal iechyd i ddarparu gwasanaeth dadebru o ansawdd da.

Gwelsom fod y ffiolau adrenalin wedi mynd heibio i'w dyddiad dod i ben. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn a oedd wedi newid yr eitemau hyn ar unwaith. Yn ogystal â hyn, gwelsom nad oedd gan y practis broses ar waith i archwilio a chofnodi'r cyffuriau a'r offer brys yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod yr eitemau yn aros yn ddiogel ac yn barod i'w defnyddio ac o fewn eu dyddiadau dod i ben.

Gwelsom fod hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar gyfer y staff.

⁷ Ystyr clwstwr yw grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau lleol.

⁸ [Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer Dadebru](#)

Roedd meddyginiaeth a nodwyddau yn cael eu storio'n briodol mewn oergell fferyllfa a oedd yn cael ei gadw mewn ystafell nyrs nad oedd yn agored i gleifion. Fodd bynnag, roedd yr ystafell wedi'i lleoli ar goridor y practis, ac er bod gan yr oergell glo, nid oedd yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym y byddai drws yr ystafell yn cael ei gau pan nad oedd neb ynddi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Gwnaethom argymhell y dylai drws yr oergell hefyd gael ei gloi fel mesur diogelwch ychwanegol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis roi prosesau ar waith ar gyfer archwilio'r cyffuriau a'r offer brys yn rheolaidd, a dylid cofnodi hyn hefyd.

Rhaid i'r practis sicrhau fod drws yr oergell meddyginiaeth yn cael ei gadw dan glo pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion ar waith. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau rhywfaint o'r wybodaeth.

Roedd y broses diogelu oedolion yn un cyffredinol nad oedd yn benodol i'r practis, ac nid oedd yn darparu digon o fanylion i'r staff eu dilyn pe bai ei hangen. Dylai'r practis hefyd benodi arweinydd diogelu yn y practis, fel y gall staff droi at unigolyn penodol i gael cymorth mewn perthynas â materion diogelu.

Er i ni weld bod rhai aelodau o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant diogelu, nid oedd y cofnodion hyfforddiant yn glir ac nid oeddwn yn gallu nodi a oedd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau neu b'un a oedd yn gyfredol. Gwneir argymhelliad yn hyn o beth yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

- Caiff y polisi diogelu oedolion ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth benodol i'r staff a gwybodaeth gyswllt yr arweinydd perthnasol ar gyfer y timau diogelu lleol.
- Penodi arweinydd diogelu yn y practis.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i sicrhau y caiff offer meddygol ei wasanaethu a'i galibradu er mwyn sicrhau ei fod yn aros yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd y trefniadau ar gyfer rhannu rhybuddion diogelwch a dderbyniwyd gan y practis yn cael eu rheoli'n briodol gan reolwr y practis a'u rhannu â'r staff priodol. Gwelsom fod unrhyw ddigwyddiadau mawr yn cael eu trafod yn ystod cyfarfod digwyddiadau mawr chwarterol, a chaiff gwybodaeth o'r cyfarfod hwnnw ei rheadru i'r timau neu'r unigolion perthnasol fel y bo'n briodol.

Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein harolygiad ac roeddem wedi llwyddo i gadarnhau bod y staff yn cael eu hannog a'u grymuso i godi unrhyw bryderon a all fod ganddynt am ddiogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Fel rhan o'r grŵp clwstwr lleol, roedd y practis yn gallu darparu talebau ar gyfer grwpiau colli pwysau lleol i'w gleifion fel ffordd o annog pwysau iach. Roedd y clwstwr hefyd wedi darparu sgrin deledu ar gyfer yr ardal aros, a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd i gleifion. Roedd peiriant monitro pwysedd gwaed hefyd ar gael yn yr ardal aros. Roedd hyn yn galluogi cleifion i gynnal archwiliad eu hunain a rhoi'r canlyniadau i'r derbynnydd i'w rhoi i'r staff clinigol. Nid oedd angen i gleifion drefnu apwyntiad ar gyfer hwn, ac roeddent yn gallu ei ddefnyddio pryd bynnag yr hoffent.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod y mwyafrif ohonynt o safon dderbyniol. Gwnaethom argymhell lle y gellid gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw'n unol â safon gyson ym mhob rhan o'r practis Roedd hyn yn cynnwys:

- Dogfennaeth fanwl o'r trafodaethau â'r cleifion i ddangos bod penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth yn cael eu gwneud ar y cyd

- Dogfennaeth fanwl a phenodol ynglŷn â'r cyngor a roddwyd i gleifion yn ystod apwyntiad os bydd ei gyflwr/problem yn gwaethygu
- Sicrhau bod pob cysylltiad clinigol, gan gynnwys brysbennu, yn cael ei ddogfennu'n glir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y staff yn y practis yn gadarnhaol am y cymorth yr oeddent yn ei gael gan y tîm rheoli. Gwelsom dîm cydlynol, ac roedd sianeli cyfathrebu priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth ym mhob rhan o'r practis.

Roedd angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r broses recriwtio, a oedd yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi.

Roedd hefyd angen gwneud gwelliannau i'r broses o gofnodi hyfforddiant y staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael ei hyfforddi mewn modd amserol.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod tîm practis cydlynol a oedd yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi ei gilydd. Roedd tystiolaeth o gydberthnasau day rhwng aelodau o'r tîm rheoli a staff y practis, a gwelsom fod morâl y staff yn uchel yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu'n dda yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli.

Roedd dau feddyg teulu partner yn berchen ar y practis, gyda rheolwr practis yn gyfrifol am y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Gwnaethom wneud nifer o argymhellion yn ystod yr adolygiad i atgyfnerthu rhai trefniadau rheoli a llywodraethu, ac roedd rheolwr y practis yn awyddus ac yn fodlon i'w rhoi ar waith. Roedd yn gadarnhaol gweld bod rheolwr y practis wedi dechrau rhoi rhai o'r newidiadau hyn ar waith cyn diwedd yr arolygiad.

Nid oedd gan y practis gynllun datblygu practis ar waith. Byddai cynllun o'r fath yn deillio adolygiad o anghenion lleol a darpariaeth wasanaeth, er mwyn nodi blaenoriaethau ar gyfer y practis. Byddai rhoi cynllun ar waith o fudd i'r practis a'r cleifion.

Dyweddodd y staff nyrsio y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y meddygon teulu. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon clinigol sydd ganddynt ar unrhyw adeg yn ystod y dydd. Roedd hyn yn cael ei wneud yn anffurfiol, gan ganiatáu trafodaethau rhydd am y cleifion.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd yn y practis er mwyn rhannu gwybodaeth rhwng y staff. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff clinigol ac anghlinigol. Dywedwyd wrthym y byddent yn gwahodd partïon eraill megis nyrsys ardal a thimau gofal lliniarol i rai cyfarfodydd clinigol lle y bo'n briodol. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu'n dda yn y practis a'u bod yn teimlo fel eu bod yn gallu trafod unrhyw broblemau a oedd yn eu poeni yn agored.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith, ac roedd y rhain ar gael ar-lein i'r staff. Fel y tynnwyd sylw ato yn gynharach yn yr adroddiad, roedd angen diweddarau rhai o'r rain er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r practis, ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Atgoffwyd y practis bod angen cyfleu unrhyw newidiadau a wnaed i bolisiâu neu weithdrefnau yn glir i'r staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ystyried creu Cynllun Datblygu Practis.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd tîm o staff sefydledig yn y practis, gyda llawer o aelodau o'r staff yn gweithio yno ers sawl blwyddyn.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau yn fanwl ac yn dangos dealltwriaeth dda o weithdrefnau'r practis.

Gwnaethom edrych ar nifer o ffeiliau hyfforddiant y staff, a gwelsom fod rhai cofnodion hyfforddiant wedi cael eu cadw. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn cadw cofnod cyffredinol o'r hyfforddiant a gwblhawyd gan bob aelod o'r staff. Roedd yn anodd felly dod i gasgliad ynghylch p'un a oedd y staff wedi cael yr holl hyfforddiant perthnasol o fewn yr amserlenni priodol, ac i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn aros yn gyfredol. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn gallu manteisio ar hyfforddiant mewnlol ac ar-lein, ac roeddent yn teimlo bod y practis yn eu cefnogi i wneud hyn.

Gwelsom fod gwaith y staff yn cael ei arfarnu'n rheolaidd.

Gwelsom fod prosesau cyfyngedig ar waith i gefnogi'r gwaith o recriwtio staff yn ddiogel.

Ar ôl cael trafodaethau â rheolwr y practis ac adolygu sampl o gofnodion y staff, nid oedd yn glir p'un a oedd staff newydd a staff presennol wedi cael yr holl wiriadau priodol i gefnogi proses recriwtio ddiogel a chyflogaeth barhaus.

Gwnaethom ystyried cofnodion cyn cyflogi un aelod o'r staff clinigol ac nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y gwiriadau perthnasol wedi'u cynnal. Roedd hyn yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), gwiriad cofrestru proffesiynol, gwiriad hepatitis B, cymwysterau, cofnodion hyfforddiant ac yswiriant indemnedd.

Cadarnhaodd adolygiad o ffeiliau aelodau eraill o'r staff a thrafodaeth â rheolwr y practis nad oedd y staff a oedd wedi'u cyflogi ers cyfnodau hir o amser wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad insert AppendixB.

Yn sgil y materion uchod mewn perthynas â recriwtio, mae'n rhaid i'r practis sicrhau fod ganddo broses gadarn ar waith ar gyfer recriwtio a phenodi unrhyw aelodau o staff yn y dyfodol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys cynnal y gwiriadau cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi perthnasol

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gofrestru â'u corff proffesiynol, megis y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)⁹ neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)¹⁰. Mae'n rhaid iddynt hefyd ailddilysu eu cofrestriad gyda thystiolaeth o ymarfer a hyfforddiant ar adegau sydd wedi'u diffinio. Er mai cyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau y caiff ei gofrestriad ei gynnal, nid oes gan y practis broses glir ar waith i fonitro hyn er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn parhau i fod yn gofrestredig â'i gorff proffesiynol.

⁹ <https://www.gmc-uk.org/>

¹⁰ <https://www.nmc.org.uk/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud y canlynol:

- Cynnal cofnod o hyfforddiant y staff a sicrhau bod y staff yn mynychu hyfforddiant o fewn amserlenni priodol.
- Rhoi proses recriwtio glir a chadarn ar waith er mwyn sicrhau bod pob gwiriadau cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i aelod newydd o'r staff ddechrau yn ei swydd.
- Rhoi proses glir a chadarn ar waith i fonitro a chadarnhau bod y staff yn cynnal eu cofrestriad proffesiynol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|--|--|----------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Meddygfa Penygraig

Dyddiad arolygu: 15 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|--|------------------|--------------------|
| Mae'n rhaid i'r practis lunio cofrestr o statws imiwneiddio ac imiwneidd hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol. Pe bai cofnodion yn dangos nad oes gan y staff yr imiwneidd priodol, mae'n rhaid cymryd camau priodol i ddiogelu'r staff a'r cleifion. | Safonau lechyd a Gofal (Ebrill 2015) 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Caiff cofnodion y staff eu cadw ar daenlen a chaiff ei diweddarau'n rheolaidd. Bydd gofyn i bob aelod o'r staff gael prawf hepatitis B i gadarnhau p'un a ydynt wedi'u diogelu'n briodol. | B Dewdney | Ar unwaith – 1 mis |
| Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth i gadarnhau bod y gwiriadau cyflogaeth priodol wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff. Rhaid i'r practis gadarnhau bod gan bob aelod presennol o'r staff wiriadau gan y Gwasanaeth | Safonau lechyd a Gofal (Ebrill 2015) | Fel uchod, bydd y cofnodion staff hyn hefyd yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, rhif GMC/Rhif Pin, yn ogystal â | B Dewdney | Ar unwaith – 1 mis |

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-------------------|--|------------------|----------|
| Datgelu a Gwahardd ar waith sy'n briodol i'w rolau. | 7.1 Y Gweithlu | thystysgrifau cyfredol yr Undeb Amddiffyn Meddygol. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Bethan Dewdney

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 22 Mai 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Penygraig

Dyddiad arolygu: 15 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---------------------|--|------------------|-----------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| Rhaid i'r practis ddangos yn glir y gwasanaeth hebryngwyr sydd ar gael i'r cleifion. | 4.1 Gofal ag Urddas | Rydym yn y broses o beintio'r ystafell aros ac rydym wedi prynu byrddau arddangos newydd a fydd yn cael eu defnyddio'n benodol at ddibenion: e.e gwasanaethau hebryngwyr, gwasanaethau allanol, gwybodaeth am y feddygfa, y wybodaeth ddiweddaraf am glefydau, CIC a chwynion, ac ati. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i'r cleifion gael gafael ar wybodaeth berthnasol heb achosi annibendod yn yr ystafell aros. | Mrs B Dewdney | 1 – 2 mis |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|--|--|--|
| Rhaid i'r practis ddiweddarau'r wefan a thaflen wybodaeth y practis er mwyn sicrhau bod yr oriau agor cywir yn cael eu nodi. | 4.2 Gwybodaeth i Gleifion | Mae'r wefan wedi'i diweddarau. | Mrs B Dewdney | 1 wythnos – cwblhawyd |
| Mae'n rhaid i'r practis ystyried ymgymryd ag asesiad mynediad i'r anabl a chymryd camau lle y caiff gwelliannau eu nodi. | 6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth | Gweithredu fel isod. | Mrs B Dewdney | 1 mis |
| <p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi'r cyfle i'r cleifion roi adborth ar y gwasanaethau mae'n eu darparu Arddangos gwybodaeth am broses Gweithio i Wella GIG Cymru, gan gynnwys darparu taflenni i fynd adref. Arddangos manylion cyswllt ar gyfer y Cyngor Iechyd Cymuned. Rhoi proses ar waith i gofnodi cwynion yn briodol, gan gynnwys dangos ble y caiff camau eu cymryd, ble y caiff themâu a thueddiadau eu nodi, ble y | 6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth | <p>Byddwn yn rhoi blwch awgrymiadau yn yr ystafell aros er mwyn i'r cleifion roi adborth.</p> <p>Byddwn yn arddangos yr holl wybodaeth megis proses Gweithio i Wella GIG Cymru a manylion a gwybodaeth gyswllt i CIC</p> | <p>B Dewdney</p> <p>B Dewdney</p> <p>B Dewdney/Meddy</p> | <p>1 wythnos</p> <p>1 – 2 mis</p> <p>1 mis</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--|--|---|------------------------------|
| <p>caiff gwersi eu dysgu a gwybodaeth ei rhannu â'r staff pan fo angen.</p> | | <p>Rydym yn trafod ein cwynion yng Nghyfarfodydd Misol y Practis.</p> <p>Rwyf wedi llunio taenlen i nodi themâu, tueddiadau a chymau gweithredu i'w cymryd sydd bellach yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd misol y practis.</p> | <p>gon J Walters a K Yanez</p> <p>B Dewdney</p> <p>J Walters</p> <p>K Yanez</p> | <p>Misol</p> |
| Darparu gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| <p>Mae angen i'r practis sicrhau y caiff y mynediad i gefn yr adeilad ei ddiogelu er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.</p> <p>Mae'n rhaid i archwiliadau amgylcheddol o'r practis gynnwys pob ardal nad ydynt yn agored i gleifion, er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn ddiogel.</p> | <p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p> | <p>Mae'r giât hon bellach ar glo.</p> | <p>B Dewdney</p> | <p>1 wythnos – cwblhawyd</p> |
| <p>Rhaid i'r practis wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trwsio neu newid y gorchuddion cadeiriau sydd wedi torri yn yr ystafell aros. | <p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p> | <p>Yn ystod y broses o adnewyddu/newid yr ystafell aros.</p> <p>Cael gwared â'r hen feinciau a gosod ystod o gadeiriau breichiau uchel neu isel newydd yn eu lle.</p> <p>Yn y broses o osod y cadeiriau newydd.</p> | <p>B Dewdney</p> | <p>6 mis</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--|---|-----------------------------------|-----------------------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> Trwsio neu newid y llawr sydd wedi'i orchuddio â thâp yn yr ystafell driniaeth. | | | | |
| <p>Rhaid i'r practis roi prosesau ar waith ar gyfer archwilio'r cyffuriau a'r offer brys yn rheolaidd, a dylid cofnodi hyn hefyd.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau fod drws yr oergell meddyginiaeth yn cael ei gadw dan glo pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.</p> | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau | <p>Mae llyfr cofnodion wedi cael ei roi ar waith.</p> <p>Rydym yn y broses o aros am ragor o allweddi gan y cwmni y gwnaethom ei brynu oddi wrtho.</p> | <p>B Dewdney</p> <p>B Dewdney</p> | <p>1 – cwblhawyd</p> <p>1 mis</p> |
| <p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Caiff y polisi diogelu oedolion ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth benodol i'r staff a gwybodaeth gyswllt yr arweinydd perthnasol ar gyfer y timau diogelu lleol. Penodi arweinydd diogelu yn y practis. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed | <p>Anfonwyd polisi diogelu atoch gyda'r newidiadau sydd wedi'u gwneud gan roi gwybodaeth gyswllt y staff.</p> <p>Dr J Walters sydd wedi arwain materion diogelu erioed.</p> | <p>B Dewdney</p> <p>B Dewdney</p> | <p>1 wythnos</p> <p>1 wythnos</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---------------------------|-----------|
| Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | 3.5 Cadw cofnodion | Trafodwyd hyn yng nghyfarfod y practis ac atgoffwyd y staff am y safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | B Dewdney/Meddy gon Teulu | 1 mis |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | | | | |
| Rhaid i'r practis ystyried creu Cynllun Datblygu Practis. | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Rwyf eisoes wedi anfon Cynllun Datblygu Personol y Practis, dyddiedig 20/7/17 atoch – sy'n gynllun tair blynedd, ond rwyf hefyd wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed. | B Dewdney | 1 wythnos |
| Rhaid i'r practis wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Cynnal cofnod o hyfforddiant y staff a sicrhau bod y staff yn mynychu hyfforddiant o fewn amserlenni priodol. | 7.1 Y Gweithlu | Mae'r canlynol eisoes wedi cael eu diweddarau: Cofnodion hyfforddiant y staff Cwblhau gwiriadau ar ôl cyflogi Monitro cofrestriad proffesiynol | B Dewdney | 1 mis |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-------|-----------------------------|------------------|----------|
| <ul style="list-style-type: none"> Rhoi proses recriwtio glir a chadarn ar waith er mwyn sicrhau bod pob gwiriad cyn cyflogi ac ar ôl cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i aelod newydd o'r staff ddechrau yn ei swydd. Rhoi proses glir a chadarn ar waith i fonitro a chadarnhau bod y staff yn cynnal eu cofrestriad proffesiynol. | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): B Dewdney

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 05/08/2019